Prentisiaeth **Lefel 2** mewn Iechyd (Cymorth Gofal Iechyd Clinigol) yng Nghymru

HYD
14
MIS

Mae'r Brentisiaeth Sylfaen mewn Iechyd (Cymorth Gofal Iechyd Clinigol) ar gyfer Cynorthwywyr Gofal Iechyd sy'n gweithio mewn ysbyty clinigol yng Nghymru. Nod y Brentisiaeth hon yw darparu'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddod yn gymwys i gefnogi gweithwyr iechyd proffesiynol i ddarparu dyletswyddau clinigol o fewn darpariaeth iechyd.

I gyflawni'r Brentisiaeth hon, rhaid i chi fod yn cael eich cyflogi gan Wasanaeth Iechyd Cymru mewn rôl sy'n darparu sgiliau clinigol. Yn benodol, dylech allu dangos eich bod yn:

- hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- gallu lleihau'r risg o haint mewn lleoliadau gofal iechyd o fewn y GIG yng Nghymru
- deall egwyddorion diogelu ac amddiffyn
- defnyddio sgiliau cyfathrebu, rhifedd a chymhwysedd digidol fel sy'n briodol yn eich rôl

Yn ystod eich cyfnod dysgu, byddwch yn adeiladu 'pecyn' o wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn i chi allu cyflawni eich rôl eich hun yn effeithiol. Bydd yr hyn y byddwch yn ei ddysgu yn eich cefnogi i gymryd cyfrifoldeb am roi eich gwybodaeth, eich dealltwriaeth a'ch sgiliau ar waith, meithrin annibyniaeth, ymreolaeth a'r hyder angenrheidiol ar gyfer swyddi ar y lefel hon.

Sut rydym yn darparu'r rhaglen hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un gan eich Tiwtor Gofal Iechyd Clinigol arbenigol penodedig eich hun.

Byddant yn cyfarfod â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i ddarparu addysg a hyfforddiant i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys drwy'r rhaglen.

Yna bydd yn asesu eich cymhwysedd trwy arsylwi arnoch chi'n defnyddio'r sgiliau newydd yn y gweithle a'ch cynorthwyo i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi bodloni'r gofynion.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Prentisiaeth Sylfaenol mewn Iechyd (Cymorth Gofal Iechyd Clinigol)
- Diploma Lefel 2 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol yng Nghymru
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 1 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 1 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol Lefel Mynediad 3 (os oes angen)

Er mwyn cyflawni'r Diploma Lefel 2 mewn Cymorth Gofal Iechyd Clinigol yng Nghymru mae'n rhaid i chi gyflawni 60 credyd.

Mae hyn yn cynnwys:

- 28 credyd y mae'n rhaid eu cwblhau o'r Grŵp Gorfodol
- 32 credyd y mae'n rhaid eu cwblhau o'r Grŵp Dewisol

Grŵp Gorfodol

Uned	Rhif	CV*
Rôl y Gweithiwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol	221	2
Hyrwyddo Arfer Da wrth Ymdrin â Gwybodaeth	610	1
Hyrwyddo a Gweithredu Iechyd a Diogelwch	611	4
Hyrwyddo dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn	612	5
Egwyddorion ar gyfer Gweithredu Dyletswydd Gofal	614	1
Hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant	615	2
Hyrwyddo Cyfathrebu	617	3
Cymryd Rhan mewn Datblygiad Personol	618	3
Lleihau Heintiau mewn Lleoliadau Gofal Iechyd o fewn y GIG yng Nghymru	619	4
Egwyddorion Diogelu ac Amddiffyn mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol	723	3

**Gwerth credyd*



Grŵp Dewisol

Uned	Number	CV*
Darparu Cefnogaeth ar gyfer Sesiynau Therapi	244	2
Cyfrannu at Fonitro Iechyd Unigolion sy'n cael eu heffeithio gan Gyflyrau Iechyd	247	2
Cefnogi Unigolion gydag Ymataliaeth	258	3
Casglu a Phrofi Samplau gan Unigolion	266	2
Darparu Cefnogaeth ar gyfer Cwsg	268	2
Cefnogi Unigolion ar Ddiwedd Oes	277	7
Gwella Gwasanaeth yn y Sector Iechyd	444	2
Egwyddorion Hybu Iechyd	445	2
Hybu Iechyd a Lles Cyffredinol	446	2
Dethol a Gwisgo Offer Amddiffynnol Personol Priodol ar gyfer Gwaith mewn Lleoliadau Gofal Iechyd	456	2
Monitro a Chynnal yr Amgylchedd a'r Adnoddau yn ystod ac yn dilyn Gweithgareddau Clinigol/Therapiwtig		3
Amddiffyn rhag y Perygl o Drais yn y Gwaith	462	2
Trefnu Apwyntiadau mewn Amgylchedd Gofal Iechyd	464	3
Cynorthwyo'r Ymarferydd i Gyflawni Gweithgareddau Gofal Iechyd	467	2
Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd: Gallu Adnabod Oedolion sy'n Sâl Iawn	705	3
Trafod Pwysau: Llwythi Difywyd	860	1
Cyfathrebu a Gwasanaeth Cwsmeriaid ar gyfer Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd	999	2
Urddas yn y Gweithle	002	1
Cyflwyniad i Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus o fewn y GIG yng Nghymru	005	2
Cyflwyniad i Reoli Gwastraff	008	2
Iechyd a Lles Personol yn y Gweithle	035	3
Defnyddio Dyfeisiau Electronig i Gofnodi a Chyflwyno Gwybodaeth	039	2
Cyflwyniad i Ymddygiad Proffesiynol	160	2
Cefnogi Unigolion i Ddiwallu Anghenion Gofal Personol	620	2
Diheintio a Glanhau	621	2
Paratoi Unigolion ar gyfer Triniaeth Glinigol	622	3
Cyfrannu at Ofal Person Ymadawedig	623	3
Cynnal Safonau Ansawdd yn y Sector Iechyd	624	1
Ymwybyddiaeth Dementia	625	2

Uned	Number	CV*
Cefnogi Annibyniaeth wrth Fyw o Ddydd i Ddydd	626	5
Cefnogi Is-gyfeirio Trais ac Ymddygiad Ymosodol yn y Gweithle	627	4
Cefnogi Unigolion i Fwyta ac Yfed	628	2
Cefnogi Unigolion sydd mewn Trallod	629	3
Darparu Cefnogaeth i Reoli Poen ac Anghysur	630	2
Gofalu am Ardaloedd sydd dan Bwysau	631	4
Ymgymryd â Mesuriadau Ffisiolegol	632	2
Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd: Sgôr Rhybudd Cynnar (EWS)	633	1
Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd: Anatomeg a Ffisioleg y System Resbiradol	634	1
Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd: Anatomeg a Ffisioleg y Galon	635	1
Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd: Arwyddion Hanfodol	636	2
Gofalu am Unigolion sydd â Thiwbiau Trwynol-Gastrig	637	2
Gofal ar gyfer Unigolion sydd â Chathetr Wrethrol	638	4
Darparu Cefnogaeth ar gyfer Symudedd	639	2
Hyrwyddo Iechyd Meddwl a Llesiant	742	3
Deall Problemau Iechyd Meddwl	743	3

**Gwerth credyd*

Y prif ddulliau asesu o fewn y cymhwyster hwn fydd trwy arsylwi gwaith ymarferol, trafodaeth broffesiynol, adroddiadau myfyriol ysgrifenedig ac atebion ysgrifenedig.

Mae'r gweithgareddau asesu wedi'u cynllunio fel bod cyfle i gasglu tystiolaeth gyfannol. Mae hyn yn golygu y bydd eich tystiolaeth yn cael ei chasglu o sefyllfaoedd gwaith go iawn sy'n dangos y gallwch chi weithio'n hyderus ac yn gyson ar draws pob agwedd ar y cymhwyster ar fwy nag un achlysur, gan eich galluogi i ddangos eich gwybodaeth a'ch sgiliau ar draws gwahanol unedau a chanlyniadau dysgu o fewn yr un gweithgaredd, ynghyd ag osgoi ailadrodd unrhyw asesiad.

Bydd y tasgau'n ei gwneud yn ofynnol i chi integreiddio eich gwybodaeth a'ch sgiliau mewn ffordd sy'n adlewyrchu gofynion y gweithle a'r sector. Mae'r asesiadau, felly, yn canolbwyntio ar sicrhau ansawdd a chysondeb eich ymarfer.

t2 group

Gofal, dyna beth rydyn ni'n ei wneud

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni **marketing@t2group.co.uk**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn: 029 2079 9133

www.t2group.co.uk info@t2group.co.uk

UNIÓN EUROPEA EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund